Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher y 14eg o Ebrill 2010 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh

Presennol: Y Dirprwy Faer y Cyng. Chris Parish, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Julia Jones
Roger Phillips (Clerc y Dref)
Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Edward Thomas,

Cof 1 / Ebrill / 09 Ceisiadau Cynllunio i'w penderfynu

E/22709 Tŷ a Garej ar lain gerllaw 18, Stryd Thomas
Sylw: Cais am gyfarfod ar y safle gyda'r Pensaer a'r Swyddog Cynllunio oherwydd y pryderon a fynegwyd gan drigolion lleol.

E/22728 I helaethu'r fynedfa a'r lle parcio gyferbyn â Sŵn y Brain, Heol Cilgant.
Sylw : Gwrthwynebiadau ar y sail y gallai hyn osod cynsail ar gyfer ceisiadau eraill yn y dyfodol. Mae'r rheiliau'n eiddo i'r Cyngor Tref ac fe'u codwyd yn unol â rheolau grant treftadaeth. Mae yna faterion priffyrdd mewn perthynas â'r gallu i weld wrth ddod allan o'r safle yn erbyn system unffordd.

Cof 2/Ebrill /10 Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio

E/22378 Un arwydd wedi'i baentio â llaw ar ddur gyr/ gyredig yn Yr Hen Golomendy, Oddi ar Heol Cilgant.
RHODDWYD

E/22379 I hongian braced dur gyredig ar un cornel o'r adeilad i hysbysebu'r busnes yn Yr Hen Golomendy, oddi ar Heol Cilgant.
RHODDWYD

E/22414 Unedau gofal hunangynhwysol a fflat rheolwr arfaethedig, mewn cysylltiad â chartrefi gofal (ailgyflwyno E/21826 a dynnwyd yn ôl ar 26.11.09) yn 6, Heol Newydd.
RHODDWYD

Cof 3 /Ebrill /10 Doedd dim Ceisiadau Cynllunio a dynnwyd yn ôl

Cof 4 / Ebrill / 10 Doedd dim Apeliadau Cynllunio

Cof 5/ Ebrill /10 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

1. Yr Asiantaeth Cefnffyrdd. Ateb i gais y Cyngor am groesfan a reolir gan gerddwyr tu allan i'r Ysgolion Cynradd. Byddai'r Asiantaeth yn cynnal astudiaeth dichonolrwydd cyn gynted ag y bydd CSG wedi cwblhau'r addasiadau i safle'r ysgol, trwy atal mynediad i gerbydau modur ar y briffordd o flaen yr ysgol. Roedd y Cyng. Colin Jenkins wedi mynychu cyfarfod dilynol gyda swyddogion CSG, ble y trafodwyd cynigion mewn perthynas â chael system unffordd ar gyfer traffig yng nghefn yr ysgolion. Penderfynwyd ymchwilio i swm o arian a roddwyd gan siop y Cooperative ar gyfer diogelwch ar y ffordd yn yr ysgolion pan adeiladwyd yr ysgol.
2. Llythyr oddi wrth CSG mewn perthynas â chais am Lwytho a Dadlwytho ar Heol y Brenin. Doedd dim gwrthwynebiadau i'r cynigion.

Cof 6. / Ebrill / 10 Doedd dim materion yn ymwneud â goleuadau

Cof 7 / Ebrill / 10 Adroddiad y Swyddog Technegol

Dywedodd Mr Davies bod y contractwr ar fin dechrau chwistrellu'r ardd gymunedol, fel rhan o'r gwaith o glirio'r ardal. Bydd CSG yn cymryd yr awenau wrth gynnal a chadw llwybrau troed cyhoeddus o fis Ebrill. Bydd dogfennau tendro ar gyfer y gwaith o osod ffenest newydd yn Neuadd y Sir yn cael eu hagor yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid. Roedd Mr Davies wedi cyfrif cost y trydan ar gyfer llifoleuo'r Eglwys am £318.37. Byddai'r gost yn cael ei anfon i'r Eglwys i'w adfer.

Cof 8 / Ebrill /10 Gohebiaeth

1. Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru parthed â Chynllun Gweithredu 2011-12. Nodwyd
2. Jane Davidson LlCC – Wythnos Cynaladwyedd Cymru 17^{eg}-23^{ain} o Fai 2010. Nodwyd
3. Digwyddiadau Gweithredu Cymunedol ar Newid Hinsawdd. Nodwyd
4. Planed – Cyfranogiad Cymunol mewn Prosiectau Cynaladwyedd. Nodwyd
5. Dr Eurgain Powell Ymgynghorydd Cynaladwyedd CSG. Bydd y Clerc yn cysylltu ag ef.
6. Tinamaria Morse parthed â noson ymgynghori ar y 19^{eg} o Ebrill ynghylch y cynnig i gael cerflun cyhoeddus. Byddai'r Faeres yn mynychu.

Cof 9/ Ebrill / 10 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Daeth y cyfarfod i ben am 7.40yh